

Cyngor Cymuned Llandybie
Llandybie Community Council

Polisi Cyfleoedd Cyfartal

Diben y polisi hwn yw darparu cyfleoedd cyfartal i'r holl Aelodau a chyflogai, waeth beth yw eu rhyw, hil, tarddiad ethnig, anabledd, cenedl, tarddiad cenedlaethol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, statws priodasol neu ddsbarth cymdeithasol. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu pob math o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg.

Bydd pob Aelod a chyflogai, boed rhan amser neu ar gontract penodol, yn cael eu trin mewn ffordd deg a chyfartal. Dewisir unigolion ar gyfer cyflogaeth, dyrchafiad, hyfforddiant, cydnabyddiaeth ariannol neu unrhyw fudd arall ar sail dawn, gallu ac addasrwydd. Anogir pob Aelod a phob cyflogai i ddatblygu eu potensial llawn a defnyddir talentau ac adnoddau pawb i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd y Cyngor.

Ymrwymiad y Cyngor:

- Mae gan yr holl Aelodau a phob cyflogai yr hawl i amgylchedd waith sy'n hyrwyddo urddas a pharch at bawb. Ni chaniateir unrhyw fath o fygythiad, bwlio neu aflonyddu.
- Mae ymrwymo at gyfleoedd cyfartal yn y gweithle yn arfer rheoli da ac yn gwneud synnwyr o ran cynnal busnes.
- Ystyrir unrhyw dramgwydd o'r polisi cyfleoedd cyfartal yn gamymddwyn, a allai hyn arwain at gychwyn gweithdrefnau disgyblu.
- Mae holl Aelodau'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r polisi hwn.
- Bydd y polisi yn cael ei fonitro a'i adolygu o bryd i'w gilydd.

Y Gyfraith:

- ∴ Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- ∴ Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974
- ∴ Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- ∴ Rheoliadau Ailbennu Rhywedd 1999
- ∴ Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000
- ∴ Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- ∴ Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
- ∴ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cafodd y Polisi Cyfleoedd Cyfartal hwn ei adolygu gan y Pwyllgor Polisi ar Chwefror 1^{af}, 2017, a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar Chwefror 22^{ain}, 2017. Bydd yn cael ei adolygu ymhen 12 mis.

Cadeirydd Clerc 22/2/17